Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol y Frenni
# Crymych
# Sir Benfro
# SA41 3QH

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol y Frenni

Lleolir Ysgol y Frenni ym mhentref Crymych, yn awdurdod lleol Sir Benfro. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol ac fe gyflwynir y Saesneg i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2.

Mae 166 disgybl rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr. Tua 52% o'r disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gartrefi lleiafrifol ethnig. Dros dreigl tair blynedd, tua 8% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r ganran genedlaethol (18%). Mae'r ysgol wedi adnabod tua 19% o'r disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn agos i'r cyfartaledd cenedlaethol (21%).

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2008 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mawrth 2012

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae gweledigaeth gadarn y pennaeth a'r arweinwyr yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddynt ddisgwyliadau pwrpasol ar gyfer yr ysgol. Mae ansawdd yr addysgu gan amlaf yn dda ac yn deillio o berthynas waith lwyddiannus rhwng y disgyblion, yr athrawon a'r cymorthyddion dysgu. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Mae llais a hawl y disgybl yn ganolog i fywyd yr ysgol ac mae safonau lles yn gadarn iawn. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda ac maent yn awyddus iawn i ddysgu. Un o gryfderau'r ysgol yw cwrteisi a pharch y disgyblion at eu cyfoedion ac oedolion. Mae amgylchedd gofalgar a hapus iawn yn yr ysgol. Mae rhieni, disgyblion, staff a llywodraethwyr yn cyfrannu at yr ymdeimlad cryf o gymuned sy'n bodoli yn yr ysgol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod y broses hunanarfarnu yn galluogi arweinwyr adnabod yn well y camau nesaf sydd eu hangen i hybu gwelliannau

A2 Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2 mewn sefyllfaoedd anffurfiol

A3 Datblygu cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso'u medrau rhifedd yn fwy cyson mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2.

A4 Sicrhau bod yr addysgu ym mhob dosbarth yn herio disgyblion o bob gallu yn gyson, yn enwedig y rhai mwy abl

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Dros gyfnod, mae medrau iaith mwyafrif y disgyblion ar fynediad i'r ysgol yn is na'r lefel sy'n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Mae llawer ohonynt yn gwneud cynnydd da wrth symud drwy'r ysgol ac yn cyflawni'n dda erbyn Blwyddyn 6. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy abl bob amser yn cyflawni'n ddigon da.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cryf o ran datblygu eu medrau gwrando a siarad. Erbyn Blwyddyn 2, mae rhan fwyaf yn rhannu eu syniadau yn frwdfrydig ac yn mwynhau trafod eu gwaith. Mae llawer yn defnyddio eu gwybodaeth am seiniau llythrennau i ganfod geiriau newydd yn effeithiol. Maent yn darllen yn glir a gyda rhuglder. Mae llawer yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n dda mewn ystod o genres. Er enghraifft, maent yn cyflwyno darnau llwyddiannus am eu teuluoedd ac am anifeiliaid anwes.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn siarad yn glir ac yn hyderus yn y ddwy iaith. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn paratoi dadleuon effeithiol yn y Gymraeg ar gyfer y testun gwisg ysgol. Fodd bynnag, nid yw ychydig o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg o'u gwirfodd mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau darllen yn dda yn y ddwy iaith i ddethol gwybodaeth berthnasol trwy fras-ddarllen a sganio, er enghraifft wrth ymchwilio i hanes y Tuduriaid a'r Ail Ryfel Byd. Wrth iddynt symud ymlaen trwy gyfnod allweddol 2, mae llawer yn dangos dealltwriaeth gadarn o arddulliau ysgrifennu ac yn rhoi ystyriaeth dda i gynulleidfaoedd gwahanol. Erbyn Blwyddyn 6, mae rhan fwyaf yn defnyddio priflythyren, gofynnod ac atalnod llawn yn dda ac yn atalnodi gan ddefnyddio collnod a dyfynodau yn gywir. Mae ansawdd llawysgrifen a chyflwyniad gwaith disgyblion yn daclus yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn cyflawni'n dda yn eu datblygiad mathemategol yn unol â'u hoed a'u gallu. Erbyn Blwyddyn 2, mae gan ran fwyaf ddealltwriaeth dda o rif, ffracsiynau ac arian ac maent yn siarad yn hyderus am eu gwaith. Mae rhan fwyaf yn mesur yn gywir gan ddefnyddio unedau safonol ac yn defnyddio data a gasglwyd i greu graff bloc syml, er enghraifft i ddangos eu hoff deganau. Mae rhan fwyaf yn defnyddio cyfesurynnau'n effeithiol, er enghraifft i leoli gwahanol nodweddion ar fap o Grymych. Maent yn cymhwyso'u medrau'n llwyddiannus wrth weithio ar draws y cwricwlwm ac yn defnyddio eu medrau rhif i ddatrys cwestiynau am bentref Crymych. Er enghraifft, maent yn cyfrif pa mor bell mae lorïau lleol yn teithio mewn wythnos a faint o anifeiliaid sydd yn ymweld â'r milfeddyg mewn wythnos.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn adeiladu'n llwyddiannus ar eu dysgu blaenorol ac yn gwneud cynnydd da yn eu gwersi mathemateg. Maent yn trafod eu gwaith rhif yn hyderus gan ddefnyddio termau mathemategol perthnasol. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf yn dangos dealltwriaeth effeithiol o rif, arian ffracsiynau a degolion. Mae ganddynt ystod dda o strategaethau sydd yn eu galluogi i adio, tynnu, lluosi a rhannu rhifau yn hyderus, er enghraifft wrth ddarganfod ble mae'r bargeinion gorau yn yr archfarchnadoedd lleol. Ym Mlwyddyn 4, yn eu gwaith

gwyddoniaeth, maent yn cymhwyso eu medrau mesur wrth ddarganfod pa mor amsugnol yw casgliad o greigiau. Fodd bynnag, ar y cyfan, nid yw'r disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn ddigon rheolaidd mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda. Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf yn defnyddio apiau yn llwyddiannus i gefnogi eu dealltwriaeth o lythrennedd a rhifedd. Mae rhan fwyaf ar frig y cyfnod yn cyflwyno cyfres o gyfarwyddiadau i reoli tegan symudol yn effeithiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn parhau i wneud cynnydd da. Maent yn defnyddio pecynnau prosesu geiriau yn llwyddiannus i gyflwyno'u gwaith a rhaglenni cyflwyno i gyfleu gwybodaeth. Mae llawer o ddisgyblion yn creu graffiau'n effeithiol a'r mwyafrif ohonynt yn ychwanegu a diwygio cofnodion cronfa ddata. Mae rhai disgyblion mwy abl yn creu cronfeydd data effeithiol i ddadansoddi data a dilyn trywyddion ymholi penodol, er enghraifft wrth ymchwilio i wahanol agweddau o'r gêm rygbi.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae'r berthynas waith sy'n bodoli rhwng y disgyblion a'r staff yn nodwedd gref yn yr ysgol ac yn sylfaen gadarn i'r ethos gofalgar a theuluol. Mae bron pob disgybl yn gwrtais a meddylgar ac yn dangos parch a gofal tuag at eu cyfoedion ac ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf y disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi mewn achos o bryder. Maent yn hyderus fod yr ysgol yn ymateb i unrhyw bryder sydd ganddynt yn brydlon.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Mae bron pob disgybl yn ymateb yn gadarnhaol i'r ystod eang o weithgareddau corfforol mae'r ysgol yn ei gynnig, er enghraifft mewn sesiynau ioga a chlybiau rhedeg a phêl rwyd. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y we.

Mae dylanwad llais y disgyblion yn un o gryfderau'r ysgol ac mae rhan fwyaf y disgyblion yn frwdfrydig iawn ynghylch ymgymryd â swyddi cyfrifoldeb.

Trwy'r ystod o wahanol gynghorau a grwpiau, mae disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol a lles chyfoedion. Er enghraifft, mae'r 'cyfaill cŵl chwarae' yn hybu cyd-chwarae ar yr iard ac yn ceisio sicrhau nad oes un plentyn yn teimlo'n unig. Mae'r cyngor eco'n weithgar ac yn codi ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd byw'n gynaliadwy trwy ailgylchu ac arbed dŵr. Mae'r cyngor ysgol yn hybu a dathlu lles corfforol a meddyliol yn llwyddiannus.

Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn y cyfleoedd i gefnogi elusennau amrywiol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill o fewn y gymuned a'r byd ehangach.

Mae bron pob disgybl yn dangos agwedd bositif tuag at ddysgu ac yn mwynhau ymgymryd â thasgau yn eu gwersi. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o drefniadaeth dosbarth ac maent yn symud o gwmpas yr ardaloedd amrywiol yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf yn ymdopi'n dda â heriau newydd ac yn

dyfalbarhau pan fyddant yn wynebu anawsterau. Yn yr arfer orau, mae disgyblion yn datblygu’n dda trwy wneud penderfyniadau annibynnol a gweithio gyda hyder yn y dosbarthiadau ac yn ar ardaloedd allanol. Mae llawer o’r disgyblion yn trafod testunau yn effeithiol mewn parau ac mewn grwpiau. Maent yn cydweithio’n dda â’u cyfoedion, gan gynnig cymorth i’w gilydd pan fo angen. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu’n ddysgwyr hyderus.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Ar draws yr ysgol, mae staff yn sefydlu perthynas waith dda iawn gyda’r disgyblion, sy’n meithrin awyrgylch dysgu gweithgar. Mae gan athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn arwain sesiynau dysgu effeithiol. Maent yn cysylltu eu gwersi’n llwyddiannus â dysgu blaenorol ac yn defnyddio strategaethau’n fedrus. Mae cydweithio da rhwng athrawon ac maent yn darparu rhaglenni cymorth pwrpasol i ddisgyblion gryfhau eu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae’r cymorthyddion dosbarth yn cynnig cymorth effeithiol iawn i’r dysgu a’r addysgu ar draws yr ysgol. Lle mae’r addysgu ar ei orau, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel ac maent yn sicrhau rhediad da i’r sesiynau. Yn yr ychydig o enghreifftiau lle mae’r addysgu yn llai effeithiol, mae athrawon yn gor-gyfarwyddo’r dysgu ac nid ydynt bob amser yn herio disgyblion yn ddigon effeithiol. O ganlyniad, nid yw’r disgyblion yn gweithio hyd eithaf eu gallu bob amser, yn enwedig y rhai mwy abl.

Mae’r athrawon yn cynnig canmoliaeth adeiladol ar adegau priodol ac, o ganlyniad, maent yn creu ystafelloedd dosbarth ble mae disgyblion yn teimlo’n hyderus eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu’n addas yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau. Mae disgyblion yn dechrau asesu eu gwaith eu hunain a’u cyfoedion. Mae’r rhan fwyaf yr athrawon yn rhoi adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion.

Mae’r cynlluniau gwaith ar gyfer y cwricwlwm yn ystyried gofynion y fframwaith llythrennedd a rhifedd yn briodol. Mae’r ysgol yn cynllunio’n fwriadus ar gyfer mynd i’r afael â’r cwricwlwm newydd. Yn y cyfnod sylfaen, mae’r athrawon yn cynllunio’n gelfydd er mwyn datblygu medrau disgyblion ac maent yn cynnwys syniadau disgyblion yn y cynlluniau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae athrawon yn paratoi gweithgareddau addas sy’n seiliedig ar bedwar diben Cwricwlwm Cymru. Maent yn cynllunio prosiectau diddorol, er enghraifft am yr Ail Ryfel Byd, ac yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd. Fodd bynnag, nid oes cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu sefydlu’n arbennig o dda yn yr ysgol. Mae’r ysgol yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddefnyddio’r ardaloedd allanol ysblennydd i ymestyn y dysgu’n llwyddiannus. Mae’r athrawon yn darparu gweithgareddau ffocws a pharhaus diddorol iawn sy’n cynnwys cyfleoedd addas i’r disgyblion chwarae rôl ac ymarfer eu medrau corfforol a chreadigol.

Mae’r ysgol yn cynllunio’n llwyddiannus ar gyfer datblygu'r dimensiwn Cymreig ac mae hyn yn atgyfnerthu’r ymdeimlad o falchder at yr ardal leol a diwylliant Cymru ymhlith y disgyblion. Mae’r disgyblion yn cael nifer o gyfleoedd i gystadlu mewn eisteddfodau lleol a chenedlaethol. Maent yn astudio awduron fel T. Llew Jones a

Mererid Hopwood ac yn gweithio gydag arlunwyr lleol i greu murluniau atyniadol. Mae hyn yn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o'u hetifeddiaeth yn effeithiol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gyfeillgar a theuluol sy'n hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi ac ymroddiad yn effeithiol. Mae pwyslais cryf ar gynnig cyfle cyfartal i bob disgybl a hybu amrywiaeth, gwrth-hiliaeth a thegwch. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion dderbyn cyfrifoldebau am agweddau o fywyd yr ysgol ac i ymuno â gwahanol glybiau. Enghreifftiau da o hyn yw'r disgyblion hŷn yn gwarchod a chwarae gyda'r rhai iau amser egwyl a'r arweinwyr digidol yn cynorthwyo disgyblion eraill yn y clwb TGCh.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth y disgyblion o faterion sy'n ymwneud â'u hiechyd a'u lles. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd da i hyrwyddo datblygiad cynaliadwyedd yn effeithiol drwy waith y cyngor eco. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o anghenion gwledydd eraill yn y byd hefyd yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r ysgol yn gwahodd ymwelwyr i siarad â'r disgyblion am anghenion a thraddodiadau Lesotho.

Mae'r arweinwyr yn datblygu systemau pwrpasol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Defnyddiant wybodaeth am berfformiad disgyblion yn effeithiol i ddarparu cymorth gwerthfawr a rhaglenni ymyrraeth pwrpasol ar gyfer unrhyw ddisgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni.

Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Mae'r athrawon yn defnyddio amryw ddulliau priodol i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar. Mae athrawon yn darparu cynlluniau addysg unigol briodol ar gyfer unigolion ac mae'r rhieni a'r disgyblion yn cael eu cynnwys yn addas wrth eu llunio a'u hadolygu. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu.

Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio ar eu dysgu a'u lles ac i gwestiynu'r byd o'u cwmpas. Er enghraifft, yn ystod gwasanaethau'r ysgol, mae oedolion a disgyblion yn trafod pwysigrwydd geiriau sy'n codi calon a geiriau sy'n brifo. Darpara'r ysgol llawer o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth ddiwylliannol trwy ystod o weithgareddau cerddorol, gan gynnwys cymryd rhan mewn cyngherddau a gwasanaethau yn yr ysgol a'r ardal leol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar gynnig addysg o safon uchel mewn amgylchedd cynhwysol Cymreig. Mae'n llwyddo i rannu'r weledigaeth hon yn effeithiol gyda staff, disgyblion, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach yn llwyddiannus.

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio'n agos i gynnig profiadau dysgu gwerthfawr i'r disgyblion. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ohonynt ac, o

dan ei harweiniad, mae gan aelodau staff ddealltwriaeth glir o’u rolau a’u cyfrifoldebau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae’r pennaeth yn defnyddio gweithdrefnau rheoli perfformiad yn dda i ysgogi gwelliant ac maent yn cysylltu targedau â chynlluniau gwella ysgol gyfan yn effeithiol.

Mae’r athrawon arweiniol yn dechrau ymgymryd â’u rolau newydd yn llwyddiannus. Maent yn cymryd cyfrifoldeb am arwain strategaethau ar draws yr ysgol. Er enghraifft, maent yn arwain cynllun i ddatblygu disgyblion annibynnol a hyderus. Fodd bynnag, nid yw hwn eto wedi gwreiddio’n llwyr ar draws yr ysgol.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant ac ethos cryf o gefnogi dysgu proffesiynol staff. Caiff staff gymorth a hyfforddiant buddiol gan gydweithwyr a gwneir defnydd llwyddiannus o arbenigedd staff o fewn yr ysgol. Enghraifft dda o hyn yw sut mae athrawon yn dechrau gweithredu i gynllunio gweithgareddau sy’n ymateb i’r cwricwlwm newydd arfaethedig gan ddefnyddio’r arfer orau o fewn y cyfnod sylfaen.

Mae’r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol. Trwy gydweithio effeithiol â’r pennaeth, siarad gyda disgyblion a chraffu ar eu llyfrau gwaith, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gryfderau’r ysgol. Defnyddiant y wybodaeth yn synhwyrol i wneud penderfyniadau wrth osod cyfeiriad strategol i waith yr ysgol. O ganlyniad, maent yn llwyddo i gefnogi a herio’r ysgol ynghylch ei pherfformiad yn llwyddiannus.

Mae’r trefniadau hunanarfarnu wedi eu gwreiddio’n gadarn ym mywyd a gwaith yr ysgol ac maent yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a’r safonau. Trwy ddadansoddi data, craffu ar waith disgyblion ac arsylwadau gwersi, mae’r pennaeth a’r staff yn dod i farn deg a chywir ynglŷn â safonau cyfredol yr ysgol. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o ganfyddiadau’r broses hunanarfarnu i wneud penderfyniadau ac i osod cyfeiriad strategol a phwrpasol i waith yr ysgol. Enghraifft dda o hyn yw’r modd y mae’r ysgol wedi mynd ati i godi safonau gwyddoniaeth disgyblion a lleihau’r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched yn y cyfnod sylfaen. Fodd bynnag, nid yw’r adroddiadau monitro bob amser yn ddigon dadansoddol i alluogi arweinwyr i fesur cynnydd yn erbyn blaenoriaethau’r ysgol ac i adnabod y camau nesaf sydd angen eu cymryd i hybu’r gwelliannau.

Mae’r pennaeth a’r llywodraethwyr yn rheoli’r gyllideb yn effeithiol ac yn monitro effaith gwariant yn drwyadl. Maent yn ymateb yn llwyddiannus i heriau cyllidol ac yn cynllunio’n fedrus er mwyn osgoi risgiau posibl yn y dyfodol. Mae’r ysgol yn gwneud defnydd da o’r grant datblygu disgyblion, er enghraifft wrth wella medrau’r ychydig ddisgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 03/12/2018